**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.cymru

18 Hydref 2023

Annwyl Gadeirydd,

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Rhestrau Sefydliadau) (Dirymu) 2023**

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor fy mod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wneud Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Rhestrau Sefydlu) (Dirymu) 2023.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan bwerau a wneir gan ddefnyddio pwerau yn Rheoliad a Ddargedwir (EU) 2017/625 – y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol.

Pwrpas y Rheoliadau yw dirymu'r cyfyngiadau a osodir ar rai sefydliadau bwyd Brasil. Bydd hyn yn galluogi'r sefydliadau bwyd ym Mrasil a gyfyngwyd arnynt yn flaenorol i gael eu hychwanegu at y rhestr o sefydliadau a gymeradwywyd i allforio i Brydain Fawr, ar ôl cyflwyno rhestr wedi'i diweddaru o'r sefydliadau a gymeradwywyd gan awdurdodau cymwys Brasil.

Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor hwn mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion o fewn cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae manteision o gydweithio â Llywodraeth y DU lle mae rhesymeg glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, felly, rwy'n rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod, a chydgysylltiad a chysondeb trawslywodraethol.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU ar 18 Hydref 2023 o dan y weithdrefn negyddol a byddant yn dod i rym ar 08 Tachwedd 2023.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ysgrifennu at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Cofion,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**